DATGANIAD YSGRIFENEDIG CYCHWYNNOL

Mannau Agored Trwyn Y Rhws – Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

Bu achosion o ymddwyn mewn ffordd anghymdeithasol yn Nhrwyn Y Rhws yn rhwystro'r trigolion lleol a defnyddwyr cyfrifol eraill rhag mwynhau'r tir agored. Cysylltir y camymddwyn hwn yn aml ag ymwelwyr sy'n nofio, yn gwersylla neu'n pysgota.

Yn unol â Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, dyma gyflwyno datganiad ysgrifenedig cychwynnol er mwyn eich rhybuddio bod y Cyngor am weithredu is-ddeddfau o dan adrannau 12 a 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906 i drin a rheoli'r gweithgareddau canlynol:

- nofio;
- gwersylla;
- pysgota.

Cred y Cyngor mai drwy gyflwyno is-ddeddfau y mae mynd i'r afael o ddifrif â'r problemau yn Nhrwyn Y Rhws, am y byddai'r rhai sy'n torri deddfau o'r fath, o'u collfarnu'n ddiannod, yn agored i'w dirwyo. Mae Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 hefyd yn rhoi'r hawl i'r Cyngor gyflwyno hysbysiadau cosb sefydlog pan fydd is-ddeddfau'n cael eu torri.

Mae'r Cyngor wedi addo y caiff trigolion gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac yn awyddus i sicrhau bod y rhan fwyaf o drigolion yr ardal dan sylw o blaid y cynnig.

Rydym hefyd am gael gwybod p'un ai a welsoch unrhyw rai'n ymddwyn mewn ffordd anghymdeithasol yn yr ardal â'ch llygaid eich hun ai peidio. Os felly, hoffem wybod beth yn union a ddigwyddodd, er mwyn i ni allu darparu ar gyfer gwahardd yr arfer yn y dyfodol o dan yr is-ddeddfau.

Yn unol â Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, dyma fynd ati felly i ymgynghori ag aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau sydd â diddordeb cyn penderfynu gweithredu'r is-ddeddfau. Gwnawn hyn er mwyn cael bod yn sicr mai dyma'r ffordd fwyaf priodol o ddatrys y problemau yn Nhrwyn Y Rhws.

Os yw'r cynnig i weithredu is-ddeddfau yn Nhrwyn Y Rhws o ddiddordeb i chi, y mae nifer o ffyrdd o ymateb i'r ymgynghori hwn.

Os ydych yn byw yn Nhrwyn Y Rhws, cewch lythyr sy'n egluro'r mater yn fanwl a ffurflen ar gyfer ymateb.

Mae croeso i bawb sy'n byw yn y Fro ymateb i'r ymgynghori. Cewch wneud hynny drwy anfon eich sylwadau mewn neges i consultation@valeofglamorgan.gov.uk neu drwy anfon llythyr i'r cyfeiriad hwn.

Ymgynghoriad ynglŷn ag Is-ddeddfau Trwyn Y Rhws
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid
Cyngor Bro Morgannwg
RHADBOST RTGU- JGBH- YYJZ
Y Barri
CF63 4RU

Hoffem dderbyn eich ymateb erbyn 7 Awst 2015.